Model NoROB – Enghreifftiau o gwestiynau

NOD

- Dychmygwch flwyddyn o nawr, sut hoffech chi i bethau fod?
- Beth yw'r prif gerrig milltir fyddwch chi'n eu gweld ar y ffordd?
- Beth fyddai'r canlyniad gorau i chi?
- Sut hoffech chi i bethau fod yn wahanol?
- Pa wahaniaeth fyddai hynny'n ei wneud?
- Pa agweddau sydd bwysicaf; allwch chi eu graddio?
- Petaech yn gallu newid un peth yn unig, beth fyddai hwnnw?

REALITI

- Beth sy'n digwydd nawr?
- Beth, pryd, ble, pwy, faint, pa mor aml, bob amser, pawb?
- Pan fydd pethau wedi mynd o'u lle, beth sy'n digwydd?
- Beth yw'r effaith arnoch chi ac eraill?
- Beth ydych wedi ei wneud eisoes?
- Beth helpodd hynny fod yn llwyddiannus ac/neu stopio neu fethu?
- Beth yw'r rhwystrau go iawn?

OPSIYNAU

- Pa opsiynau sy'n agored i chi?
- Pa opsiwn sydd â'r potensial mwyaf i wneud gwahaniaeth?
- Beth arall allech chi ei wneud?
- Beth allech chi beidio ei wneud, wneud llai ohono?
- Pa bethau sydd o blaid ac yn erbyn...?
- Beth yw'r costau a'r buddion posibl? (amser, ymdrech, arian)
- Beth fyddai angen arnoch ei oresgyn petaech yn dewis opsiwn 'X'?

BYDDWN

- Pa mor hyderus ydych chi y bydd yr opsiwn a ddewiswch yn datrys y broblem?
- Beth yw'r peth cyntaf mae arnoch angen ei wneud?
- Pwy arall sydd angen ymwneud ac ym mha fodd?
- Pa gefnogaeth sydd ei hangen arnoch?
- Pwy sydd angen gwybod beth sy'n digwydd?
- Ar raddfa o 1 i 10 beth yw eich ymrwymiad i wneud hyn? Beth fyddai'n sicrhau eich ymrwymiad tymor hir?
- Beth allai fod yn rhwystr i'ch llwyddiant? Sut allech chi baratoi ar gyfer hyn?
- Sut fyddwch yn gwybod eich bod wedi bod yn llwyddiannus?

Education Development Trust Highbridge House, 16-18 Duke Street, Reading, Berkshire, RG1 4RU

T +44 (0)118 902 1000 **W** educationdevelopmenttrust.com

Education Development Trust is a registered charity (No. 270901) and company limited by guarantee (No. 867944) • Registered in England and Wales • Registered office as above

Copyright 2021, Education Development Trust, all rights reserved